# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 3**

TREFNIADAETH YSGOLION

**PENNOD 5**

CYNIGION I AILSTRWYTHURO ADDYSG CHWECHED DOSBARTH

*Gweithredu cynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth*

**74 Y ffurf weithredu**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys i gynigion sydd wedi eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru o dan adran 73.

(2) Rhaid i’r cynigion (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon) gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu mabwysiadu.

(3) Ar gais corff penodedig, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) addasu cynigion sydd wedi eu mabwysiadu o dan adran 73 ar ôl ymgynghori â’r cyrff penodedig, a

(b) pan fo wedi ei datgan bod mabwysiad y cynigion yn dod yn weithredol yn ddarostyngedig i ddigwyddiad penodedig, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y bydd yn rhaid i’r digwyddiad hwnnw ddigwydd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw is-adran (2) yn gymwys i’r cynigion os ydynt wedi eu bodloni, ar ôl ymgynghori â’r cyrff penodedig—

(a) y byddai gweithredu’r cynigion yn afresymol o anodd, neu

(b) bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i’r cynigion gael eu mabwysiadu y byddai’n amhriodol gweithredu’r cynigion.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) "Corff penodedig" yw pob un o'r canlynol at ddibenion is-adrannau (3) a (4)—
(a) corff llywodraethu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
(b) yn achos cynnig i sefydlu ysgol newydd, y corff llywodraethu dros dro a gyfansoddwyd yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf Addysg 2002;
(c) yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;
(d) pan fo'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol arbennig gymunedol, pob awdurdod lleol sy'n cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 mewn cysylltiad â disgybl cofrestredig yn yr ysgol.

**75 Y cyfrifoldeb dros weithredu**

(1) Rhaid i gynigion i sefydlu ysgol gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal yr ysgol.

(2) Rhaid i gynigion i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 gael eu gweithredu—
(a) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;
(b) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir—
(i) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu unrhyw fangre berthnasol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a
(ii) fel arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau (os o gwbl) y mae'r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny;
(c) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag unrhyw ysgol arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau (os o gwbl) y mae'r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny.

(3) Yn is-adran (2) ystyr "mangre berthnasol" yw—
(a) caeau chwarae, neu
(b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau'r ysgol.

(4) Rhaid i gynigion i derfynu ysgol gael eu gweithredu—
(a) yn achos cynigion sy'n ymwneud ag ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a
(b) mewn unrhyw achos arall, gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol.

(5) Os bydd ysgol yn newid categori o fod yn ysgol gymunedol ar ôl i gynigion gael eu cyhoeddi o dan adran 72 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid i'r cynigion (i'r graddau nad ydynt wedi eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (er gwaethaf is-adrannau (2) a (4)).

**76 Darpariaeth bellach o ran gweithredu**

(1) Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol yn rhinwedd adran 75 ddarparu safle ar gyfer ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir, mae paragraff 7 o Atodlen 3 (darparu safle

ac adeiladau i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir) yn gymwys fel y bo'n gymwys yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (1) o'r paragraff hwnnw.

(2) Mae paragraff 8 o Atodlen 3 (grantiau mewn cysylltiad â gwariant penodol ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaeth o dan adran 75(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8(1)(a) o'r Atodlen honno.

(3) Mae paragraff 9 o Atodlen 3 (cymorth gan awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â rhwymedigaethau a osodir ar gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir o dan adran 75(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt yn y paragraff 9 hwnnw, ac mae paragraff 11 o'r Atodlen honno (dyletswydd ar awdurdod lleol i drosglwyddo buddiant mewn mangre a ddarperir o dan baragraff 9 neu 10) yn gymwys yn unol â hynny.